Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Dafen

**Lôn Yr Ysgol**
**Dafen**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 8LL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Mr Jeffrey Harries**

**Dan Gytundeb ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Dafen wedi ei lleoli ym mhentref Dafen ar gyrion dwyreiniol tref Llanelli. Mae'r ysgol, gaiff ei chynnal gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin (ALl), yn gwasanaethu ardal sydd bennaf yn drefol. Mae'r ysgol yn datgan fod tua 40% o'r ardal o dan anfantais economaidd a'r gweddill nad yw'n ffyniannus nac ychwaith yn destun anfantais economaidd. Mae'r disgyblion yn adlewyrchu'r ystod lawn o allu. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dod o gartref lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.
Ar hyn o bryd, mae 156 o ddisgyblion llawn amser rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol, 13 ohonynt o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae saith dosbarth, un ohonynt â disgyblion o allu cymysg. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng o tua 25% ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gan tua 21% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigur sydd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae 38 o ddisgyblion (27%) wedi eu dynodi ag anghenion addysgol arbennig (AAA) gan gynnwys tri disgybl sydd yn dal datganiad o AAA.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers 1995. Ychydig o newidiadau arwyddocaol a fu i'r ysgol ers iddi gael ei harolygu diwethaf yn Nhachwedd 2004. Yn 2010-2011, y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Dafen yw £3,014 sydd y 109$^{fed}$ uchaf allan o'r 114 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da yn eu dysgu;
- yn gyffredinol, mae'r addysgu o safon dda;
- mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu da ar gyfer yr holl ddisgyblion; ac
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda.

**Rhagolygon gwella**

Er bod cryfderau i arweinyddiaeth yr ysgol, mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn ddigonol oherwydd ers yr arolygiad diwethaf:

- ni wnaed digon o gynnydd wrth ddatblygu medrau dwyieithog y disgyblion;
- nid yw rôl y cydlynwyr pwnc wrth fonitro safonau cyflawniad wedi ei ddatblygu'n ddigonol;
- ni chaiff deilliannau gweithdrefnau hunan arfarnu eu blaenoriaethu'n ddigonol yng nghynllunio'r ysgol ar gyfer datblygiad; ac
- nid oes digon o gysylltiadau gyda chyflogwyr i ddatblygu medrau menter y disgyblion ymhellach.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 gwella sgiliau llefaredd mewn Saesneg a medrau dwyieithog y disgyblion;

A2 datblygu ymhellach rôl y cydlynwyr pwnc wrth fonitro cyflawniad ar draws yr holl feysydd dysgu a defnyddio deilliannau hunan arfarnu er mwy gosod a blaenoriaethu targedau ar gyfer gwelliant;

A3 cryfhau strategaethau asesu ar gyfer dysgu;

A4 gosod targedau ysgol-gyfan er mwyn codi lefelau presenoldeb; a

A5 ehangu profiadau disgyblion o fyd gwaith ac entrepreneuriaeth.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu fydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Caiff y cynnydd a wneir wrth fynd i'r afael â'r argymhellion ei fonitro gan yr ALl bydd yn adrodd ei ganfyddiadau i Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae tua hanner y disgyblion yn arddangos medrau sydd yn is na'r cyfartaledd mewn gwrando, siarad a rhifedd. Fodd bynnag mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r rhan fwyaf yn parhau i wneud cynnydd da blwyddyn ar flwyddyn.

Ar ben uchaf cyfnod allweddol 1 yn 2010, roedd cyrhaeddiad dysgwyr yn ôl asesiad athro ym mhynciau craidd y cwricwlwm cenedlaethol (CC), yn is na'r cyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r teulu o ysgolion yn Saesneg, yn debyg mewn mathemateg ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. O ganlyniad roedd yr ysgol yn yr 50% isaf o ysgolion ond yn uwch na'r 25% o ysgolion isaf un eu perfformiad. Roedd hyn yn welliant ar y tair blynedd flaenorol. Roedd cyrhaeddiad dysgwyr ar lefel 3, y lefel uchaf sydd ar gael i blant saith blwydd oed, ychydig yn is na'r cyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yn arwyddocaol uwch nag oedd yn y tair blynedd flaenorol. Perfformiodd y bechgyn yn arwyddocaol is na'r merched.

Ar ben uchaf cyfnod allweddol 2 yn 2010, roedd cyrhaeddiad dysgwyr mewn Saesneg a mathemateg yn is na chyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r teulu o ysgolion, ac yn debyg mewn gwyddoniaeth. Roedd cyrhaeddiad dysgwyr ar lefel 5, sef y lefel uchaf ar gael i blant 11 blwydd oed, yn debyg i'r rhai lleol, cenedlaethol a'r teulu o ysgolion tebyg ym mhob pwnc. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yng Nghymru, roedd perfformiad yr ysgol yn yr 25% isaf ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae'r ysgol yn datgan fod y canran o ddisgyblion gydag AAA yn uwch yn y grŵp blwyddyn hwn nag oedd yn y blynyddoedd cynt. Roedd safonau cyflawniad yn yr 25% uchaf o ysgolion yn 2008 ac yn yr 50% uchaf yn 2009. Yn 2010, roedd perfformiad y bechgyn llawer yn uwch na pherfformiad y merched.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu sgiliau ac yn cyflawni safonau da mewn gwrando, darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw sgiliau llefaredd y disgyblion wedi eu datblygu cystal ynghyd a'u medrau dwyieithog sydd yn is na'r disgwyl. Maent yn cyflawni safonau da mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac yn cymhwyso'r ddau yn dda, er enghraifft, mewn Saesneg, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg. Mae medrau creadigol y disgyblion yn dda iawn ac yn arbennig o amlwg mewn cerddoriaeth a chelf.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol; cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gweithio'n galed ac yn cyfrannu'n dda mewn gwersi. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac mewn gweithgareddau grŵp. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn datgan eu bod yn gallu gwneud eu gwaith heb ymyrraeth gan eraill a bod yr ysgol yn delio'n briodol gydag unrhyw fân achosion o fwlian. Mae presenoldeb disgyblion ar gyfer 2009-2010 yn 91.7% sydd yn is na'r cyfartaledd

cenedlaethol ac nid oes unrhyw dargedau ysgol-gyfan wedi eu gosod ar gyfer gwelliant.

Mae cysylltiadau gyda'r gymuned wedi eu datblygu'n dda ac yn nodwedd gref. Mae disgyblion yn elwa oddi wrth y gweithgareddau hyn sydd yn gwneud cyfraniad hynod at eu profiadau dysgu, eu hyder a'u medrau perfformio.

Mae'r cynghorau ysgol ag eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau caiff safbwyntiau'r disgyblion eu clywed a lle'n briodol eu gweithredu. Mae'r cyngor ysgol wedi bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo gwelliannau i'r cyfleusterau y tu allan. Dengys y disgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a byw yn iach. Maent yn bwyta'n iachus yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff yn ystod a thu allan i weithgareddau ysgol.

Dengys y disgyblion barch, gofal a chonsyrn am ei gilydd ac maent yn perthnasu'n dda i'w hathrawon a gweddill y staff.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang ac amrywiol o brofiadau cwricwlaidd sydd ar y cyfan yn diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol. Yn gyffredinol, caiff gwersi eu cynllunio'n effeithiol ac mae profiadau dysgu yn rhoi ystyriaeth sydd â ffocws da i ddisgyblion o wahanol alluoedd a chefndiroedd.

Mae profiadau allgyrsiol yn nodwedd amlwg yn narpariaeth yr ysgol ac mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau'r gymuned leol, sefydliadau chwaraeon a gwirfoddol yn effeithiol i ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Er bod cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol yn bodoli a chaiff gweithgareddau menter eu hyrwyddo, maent yn feysydd ar gyfer datblygiad pellach.

Mae cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau mathemategol, TGCh, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn effeithiol ar y cyfan er mae'r ffocws ar fedrau ysgrifennu estynedig yn llai amlwg. Mae strategaethau i ddatblygu medrau llefaredd ymhellach yng nghyfnod cynnar eu datblygiad. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau datrys problemau yn datblygu'n dda tra bod y ffocws ar fedrau creadigol yn dda iawn. Yn gyffredinol, rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion i weithio'n unigol ac mewn grwpiau.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddimensiwn y diwylliant Cymreig. Caiff ymagweddau cadarnhaol eu meithrin tuag at yr iaith Gymraeg ac arsylwyd ar enghreifftiau da o ddefnyddio'r iaith mewn lleiafrif o ddosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau a strategaethau i hyrwyddo'r defnydd cynyddol o ddwyieithrwydd mewn amrywiol feysydd cwricwlaidd ac mewn sefyllfaoedd mwy anffurfiol wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae ymwybyddiaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Rhydd yr ysgol flaenoriaeth uchel i faterion amgylcheddol ac mae hyrwyddo

dinasyddiaeth fyd-eang a dealltwriaeth o'r byd ehangach yn nodweddion cryf o'r ddarpariaeth.

**Addysgu: Da**

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn dda a defnyddir ystod effeithiol o strategaethau addysgu. Mae perthnasau da iawn rhwng y disgyblion a'r athrawon a chaiff y cynorthwywyr addysgu eu lleoli'n effeithiol. Y rhan fwyaf o'r amser, caiff gwaith ei wahaniaethu'n addas ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd. Caiff dysgu'r disgyblion eu hymestyn yn effeithiol trwy gwestiynu priodol a defnyddir yr adnoddau dysgu'n effeithiol; mae'r rhan fwyaf o wersi yn datblygu ar gyflymder da. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff amcanion y wers eu rhannu'n eglur iawn gyda'r disgyblion ac ailymwelir â nhw yn ystod y wers. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn yr enghreifftiau gorau, caiff ffyrdd o wella eu gwaith eu nodi'n eglur.

Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i asesu disgyblion ac i osod targedau unigol. Mae system tracio electronig a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dod â thrylwyredd ychwanegol i'r broses. Mae strategaethau ar gyfer hyrwyddo gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn eu lle ac er ar gyfnod cynnar o'u datblygiad, yn dechrau cael effaith cadarnhaol. Mae hyn yn faes mae'r ysgol wedi ei dargedu ar gyfer datblygiad pellach. Mae cynnwys y disgyblion wrth osod targedau a gwerthuso cynnydd hefyd ar gyfnod cynnar o'u datblygiad. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn diwallu'r gofynion ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd dda ar gyfer rhieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

At ei gilydd, mae rhieni a gofalwyr yn derbyn ystod dda o wybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae 'r trefniadau gogyfer â helpu plant i ymgartrefu'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol yn dda, felly hefyd y rhai ar gyfer trosglwyddo’r disgyblion i'r ysgolion uwchradd. Mae darpariaeth dda ar gyfer lles disgyblion ac mae'r hyrwyddo o fyw yn iach yn nodwedd gref. Mae llawer o'r mentrau yn y cynllun ysgolion iach wedi cael effaith cadarnhaol ar hyrwyddo dulliau iachus o fyw. Codwyd materion mewn perthynas ag iechyd a diogelwch gyda'r ysgol.

Yn gyffredinol, caiff datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion eu hyrwyddo'n dda. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ynghyd â chyfnodau addoli ar y cyd, yn gwneud cyfraniad pwysig yn y meysydd hyn. Nid yw datblygiad ysbrydol disgyblion yn cael ei ddatblygu cystal. Mae cyfleoedd ar gyfer myfyrio'n dawel ar y testunau a'r materion mewn ffocws yn ystod cyfnodau addoli ar y cyd yn gyfyngedig.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol mewn lle ar gyfer diogelu'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r holl staff wedi elwa oddi wrth hyfforddiant diweddaru mewn perthynas ag amrediad eang o bolisïau ysgol mewn perthynas â diogelwch, lles a chydraddoldeb. Mae'r bartneriaeth gyda'r gwasanaethau arbenigol yn gryf.

Mae gweithdrefnau da mewn lle ar gyfer dynodi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac, ar y cyfan, caiff disgyblion eu cefnogi'n dda. Mae'r cydlynydd AAA, ynghyd â nifer o staff cynnal yn gwneud cyfraniad effeithiol a gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da mewn perthynas â thargedau unigol. Darperir cefnogaeth

dda ar gyfer y disgyblion hynny sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac i'r rhai mwy galluog a dawnus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar. Mae polisïau a gweithdrefnau gyda ffocws da yn sicrhau cydraddoldeb cyfle. Mae strategaethau da mewn lle ar gyfer hyrwyddo a dathlu amrywiaeth. Mae'r staff yn gweithio'n galed i sicrhau amgylchedd ddysgu cadarnhaol lle caiff ymdrechion disgyblion eu cydnabod.

Yn ystod yr arolygiad, roedd tystiolaeth yn nodi, er gwaetha'r amodau tywydd oer iawn, y gwneir defnydd da iawn o'r ardaloedd dysgu allanol oedd wedi eu hadnoddu'n dda.

Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn cynnig amgylchedd ddysgu ffisegol da. Mae disgyblion yn elwa oddi wrth neuadd fawr, llyfrgell ac ardal ddysgu AAA. Caiff trefniadau cwricwlaidd a chymdeithasol yr ysgol eu hesmwytho gan ardal ciniawa ar wahân. Mae arddangosfeydd o ansawdd dda o waith disgyblion o amgylch yr ysgol. Un ardal sydd yn difrïo ar ddarpariaeth yr adeiladau a'r ystafelloedd yw'r lleoliad arunig ar gyfer y plant meithrin.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol. Mae'n hyrwyddo ymddygiad a gwerthoedd cadarnhaol a chaiff ei gefnogi'n arbennig o dda gan y dirprwy bennaeth. O ganlyniad ceir ethos ysgol lle mae'r disgyblion a'r staff yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi.

Mae gan arweinwyr nodau eglur ac amcanion strategol, ond ni chânt eu gweithredu a'u monitro mewn modd amserol ar bob achlysur. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi llwyddo gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau defnyddio data i fonitro perfformiad; fodd bynnag, hyd yn hyn nid yw'r dadansoddiad hwn wedi arwain at gynlluniau gweithredu sydd yn ffocysu ar y prif ganfyddiadau. Nid yw strwythurau rheolaeth a phwyllgor yn mynd i'r afael yn gyson â materion craidd nac yn mynd i'r afael yn gadarn â materion o danberfformio.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac yn cefnogi'r ysgol yn briodol yn eu rôl fel cyfaill beirniadol. Mae'r corff llywodraethu yn cyflawni ei dyletswyddau statudol yn dda.

Rhydd yr ysgol sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, megis cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a chyfrifoldebau o fewn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio’n ddigonol ar gyfer gwelliant. Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'i gwendidau eu hunan; fodd bynnag nid oes unrhyw amserlen hunan arfarnu cynhwysfawr.

Mae hunan arfarnu diweddar yn rhoi ystyriaeth i safbwyntiau staff a rhieni/gofalwyr ac mae enghreifftiau o welliannau a wnaed o ganlyniad i'r ymgynghori hyn.

Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn dynodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, ni chaiff deilliannau eu hasesu'n drylwyr ac o ganlyniad ychydig o dystiolaeth sydd fod cynlluniau gweithredu wedi arwain at welliant mesuradwy mewn safonau. Nid yw hunan arfarnu'r ysgol wedi ei fewnosod yn ddigonol yn y cynllunio strategol.

Nid yw ymateb yr ysgol i argymhellion yr arolygiad blaenorol eto wedi arwain at welliannau arwyddocaol. Erys gwella dwyieithrwydd, datblygu rôl y cydlynwyr pwnc, gwella monitro a datblygu cysylltiadau gyda diwydiant yn feysydd ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn datblygu’n ddigonol fel cymuned ddysgu broffesiynol. Ceir rhai enghreifftiau da o arfer da'n cael eu rhannu o fewn a thu hwnt i'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda nifer o bartneriaid strategol i wella safonau a lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r gymuned, cyswllt a chyfathrebu da gyda'r rhieni/gofalwyr ac yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill. Mae gweithrediad yr ysgol o'r fenter Iaith a Chwarae yn enghraifft arbennig o dda o gysylltiadau gyda'r rhieni yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol.

Mae cysylltiadau defnyddiol gyda darparwyr eraill yn bodoli. Mae'r enghreifftiau gorau yn arwain at welliant mewn safonau, er enghraifft trwy gyfuno adnoddu gyda'r ysgol uwchradd partner. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol yn danddatblygedig.

Mae'r cynlluniau pontio yn gynhwysfawr ac yn sicrhau dilyniant llwyddiannus yn y dysgu a'r lles.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol ac effeithlon. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol ac mae lleoliad staff yn sicrhau defnydd da o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r ysgol yn arbennig o effeithiol wrth leoli cynorthwywyr addysgu, er enghraifft trwy gyfrannu at godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd trwy sesiynau neilltuo, neu trwy helpu'r ysgol ddiwallu gofynion y Cytundeb Cenedlaethol ar 'Godi Safonau a Mynd i'r Afael â Llwyth Gwaith'.

Mae arweinwyr yn llwyddiannus wrth gadw adolygu costau'r ddarpariaeth bresennol ac yn gwneud addasiadau priodol lle bod angen, er enghraifft, mewn perthynas â meintiau anymarferol dosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol amrediad da iawn o adnoddau dysgu, er enghraifft cyfarpar TGCh, llyfrgell sydd wedi ei chyflenwi'n dda ac amrediad eang o offerynnau cerddorol. Mae'r ddarpariaeth o adnoddau o'r fath yn arwain at gyfleodd a deilliannau da i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn ar gyfer arian yn nhermau'r defnydd o'r gyllideb a ddyrennir i'r ysgol.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad randdeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 17 o ymatebion oddi wrth y rhieni. Roedd hwn yn gyfran arwyddocaol fychan o'r rhieni. At ei gilydd, roeddent yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol.

Teimla'r holl rieni bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol a bod gan aelodau'r staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Maent hefyd yn datgan fod ansawdd yr addysgu'n dda, bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael ei annog i fod yn iachus ac i ymarfer yn rheolaidd.

Mae llawer o rieni yn fodlon gyda'r ysgol. Credant fod eu plant yn ymddwyn yn dda, eu bod yn derbyn gwaith cartref priodol ac yn cael cefnogaeth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Maent yn datgan fod yr ysgol yn helpu eu plentyn ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Nid yw ychydig o rieni yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio gyda chwynion ac yn ansicr os yw eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniodd Estyn ymatebion oddi wrth 74 o ddisgyblion. Mae'r holl ddisgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn gofidio. Maent i gyd yn credu fod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach gyda llawer o gyfleoedd i ymarfer yn rheolaidd. Maent i gyd yn datgan fod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac y gellid troi atynt pan fod y gwaith yn mynd yn anodd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datgan eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod y gwaith cartref yn eu helpu i wella eu gwaith ysgol. Teimlant fod ganddynt ddigon o adnoddau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Teimla bron yr holl ddisgyblion fod plant yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac amser chwarae a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw achosion o fwlian.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Harries | Arolygydd Cofnodol |
| Brinley W Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Tristan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Iolan Greville | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** EPPC-Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |